Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2019 Rhif 220 (Cy. 50)

# Y DRETH GYNGOR, CYMRU

## Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) (Diwygio) (Cymru) 2019

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) 1992 (O.S. 1992/613) ("Rheoliadau 1992").

Mae rheoliad 2 yn gwneud diwygiadau i Reoliadau 1992 i ddileu pŵer awdurdodau bilio yng Nghymru i wneud cais i lys ynadon am ddyroddi gwarant i draddodi dyledwr treth gyngor i garchar.

Mae rheoliad 3 yn gwneud darpariaeth drosiannol. Mae unrhyw achosion pan fo awdurdod bilio yng Nghymru wedi gwneud cais am warant i draddodi cyn 1 Ebrill 2019 yn parhau i gael eu trin o dan y cynllun a oedd yn gymwys cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym. Fodd bynnag, ni chaiff awdurdodau bilio yng Nghymru ddefnyddio'r pŵer yn rheoliad 48(3) o Reoliadau 1992 i adnewyddu cais ar neu ar ôl 1 Ebrill 2019.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi gan Lywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2019 Rhif 220 (Cy. 50)

# Y DRETH GYNGOR, CYMRU

## Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) (Diwygio) (Cymru) 2019

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *11 Chwefror 2019* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *12 Chwefror 2019* |
| *Yn dod i rym* | *1 Ebrill 2019* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 113(2) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 a pharagraffau 1(1), 2 ac 8 o Atodlen 4 iddi(**1**), ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**).

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) (Diwygio) (Cymru) 2019.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2019.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(**1**) 1992 p. 14. Diwygiwyd adran 113 gan baragraffau 40, 52(1) a (2) o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 (p. 26) ac adran 80(1), (4) a (5) o Ddeddf Lleoliaeth 2011 (p. 20). Diwygiwyd paragraffau 1 ac 8 o Atodlen 4 gan baragraff 107 o Atodlen 13 i Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007 (p. 15).

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), ac Atodlen 1 iddo. Trosglwyddwyd y swyddogaethau hynny wedi hynny i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

### Diwygio Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) 1992

**2.**—(1) Mae Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) 1992(**1**) ("Rheoliadau 1992") wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 47(1) (traddodi i garchar), ar ôl "a billing authority" mewnosoder "in England".

(3) Yn rheoliad 54 (atebolrwydd cyd ac unigol: gorfodi), yn lle paragraff (7) rhodder—

> "(7) Where the Schedule 12 procedure has been used against two or more joint taxpayers in respect of an amount, a billing authority in England may, subject to paragraph (8), apply for a warrant of commitment at any time against one of them or different warrants may be applied for against more than one of them: but no such application may be made in respect of any of them who has not attained the age of 18 years."

### Darpariaeth drosiannol

**3.**—(1) Nid yw'r diwygiadau a wnaed gan reoliad 2 yn gymwys mewn achos pan fo awdurdod bilio yng Nghymru, cyn 1 Ebrill 2019, wedi gwneud cais i lys ynadon o dan reoliad 47 o Reoliadau 1992 am ddyroddi gwarant i draddodi'r dyledwr i garchar.

(2) Ond mewn achos o'r fath, ni chaiff awdurdod bilio yng Nghymru adnewyddu cais o dan reoliad 48(3) o Reoliadau 1992 ar neu ar ôl 1 Ebrill 2019.

*Rebecca Evans*
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, un o Weinidogion Cymru
11 Chwefror 2019

(**1**) O.S. 1992/613, yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 1992/3008, 1993/773, 1994/505, 2013/630 a 2014/600.